

Ymateb i Sgrin Fach: Trafodaeth

Fawr

Rhagfyr 2021

- Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth y DU ddatblygu cynigion polisi a chynigion deddfwriaethol i weithredu argymhellion Ofcom yn Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, a sicrhau y caiff y gweinyddiaethau datganoledig eu cynnwys yn llawn yn y gwaith hwn.....7
- Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth y DU ymateb yn gadarnhaol i argymhellion Ofcom y dylai fod yn ofynnol i lwyfannau ffrydio gynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, rhoi amlygrwydd priodol iddynt, a thrafod â'r darlledwyr hynny. Dylid sicrhau bod proses gorfodi a datrys anghydfodau effeithiol yn sail i'r gofynion hyn.....10
- Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth y DU ystyried enghreifftiau rhyngwladol o fynd i'r afael â'r heriau a berir gan wasanaethau ffrydio byd-eang a'r ffaith bod pobl yn gwylio mwy o gynnwys ar-lein, a sut y gwneir hynny mewn gwledydd sydd â hanes o fodolau darlledu gwasanaeth cyhoeddus tebyg i Gymru, ac mewn gwledydd sydd ag ieithoedd lleiafrifol.....10
- Argymhelliad 4.** Dylai gweithredoedd Ofcom yng Nghymru gael eu hadolygu. Os argymhellir hynny, o ganlyniad i'r adolygiad, mae'n rhaid i Lywodraeth y DU ddarparu adnoddau ychwanegol er mwyn cryfhau'r rheoleiddiwr yng Nghymru.....10
- Argymhelliad 5.** Mae'r trafodaethau ar setliad ariannu Cymru yn gam hanfodol er mwyn sicrhau y gall darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus barhau i wasanaethu cynulleidfaoedd Cymru drwy roi sylw i'n digwyddiadau diwylliannol sy'n dod â phobl ynghyd a darparu newyddion y gellir ymddiried ynddo. Mae'r Pwyllgor yn galw am sedd wrth y ford i gynrychiolydd Cymru wrth drafod setliad nesaf ffi'r drwydded rhwng 2022 a 2027. Hefyd, dylid cynnwys rôl y cynrychiolydd hwn fel safon ar gyfer cylch nesaf y trafodaethau.....13
- Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth y DU gydnabod pa mor bwysig yw moderneiddio amcanion y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'u diweddarau i sicrhau eu bod yn cefnogi



economi greadigol y DU, gan sbarduno manteision economaidd ar draws y cenhedloedd a'r rhanbarthau.....16

Argymhelliad 7. Dylai'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Panel Cynghori ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus gynnwys cynrychiolwyr o'r gweinyddiaethau datganoledig yn eu trafodaethau ynghylch atebion polisi ac atebion deddfwriaethol i'r heriau sy'n wynebu darlledwyr gwasanaetha cyhoeddus yn yr oes ddigidol. Dylid rhoi sylw arbennig i'r angen am ymyrraeth i sicrhau bod rhaglennu yn yr iaith Gymraeg, a chynnwys sy'n adlewyrchu Cymru yn y ddwy iaith, yn cael eu diogelu.....19

1. Cyflwyniad

1. Yn ei gyfarfod ar 13 Hydref 2021, cynhaliodd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol Senedd Cymru ymchwiliad undydd i'r heriau sy'n wynebu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.¹

2. Man cychwyn y sgwrs oedd y datganiad, Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr – Argymhellion i Lywodraeth y DU ar ddyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, a gyhoeddwyd gan Ofcom ym mis Gorffennaf 2021. Cyhoeddwyd yr argymhellion hyn yn dilyn yr adolygiad o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a lansiwyd gan Ofcom ym mis Rhagfyr 2020. Siaradodd y Pwyllgor â chynrychiolwyr Ofcom Cymru, Pwyllgor Cynghori Cymru Ofcom, S4C, BBC Cymru, ITV Cymru, cwmnïau cynhyrchu annibynnol ac academyddion. Mae rhestr o'r cyfranogwyr yn yr atodiad i'r adroddiad hwn.

2. Canfyddiadau'r Pwyllgor

3. Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo canfyddiadau Ofcom bod angen fframwaith cyfreithiol a fframwaith polisi newydd i alluogi darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gyflawni eu cylchoedd gwaith mewn byd sy'n symud fwyfwy ar-lein, lle nad yw'r newidiadau o ran technoleg ac arferion gwyllo yn cefnogi'r model presennol mwyach. Mae'r model darparu wedi symud mor bell y tu hwnt i'r fframwaith ariannu a chyfreithiol presennol, bydd angen newid sylweddol i fodel newydd i fynd i'r afael â'r bygythiad i fodolaeth darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Roedd

¹ Yn adroddiad Ofcom, cyfeirir at y "cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus" i gydnabod y ffaith bod pobl yn debygol o wyllo'r cynnwys a gynhyrchir gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar alw ar-lein. Er cysondeb, mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at "ddarlledwyr".

y rhai a gymerodd ran yn y drafodaeth yn annog Llywodraeth y DU i edrych ar fodolau ariannu a rheoleiddio rhyngwladol ac unrhyw gynigion sy'n cael eu datblygu gan lywodraethau eraill sydd ag ieithoedd lleiafrifol wrth ymateb i'r heriau a ddaw yn sgil gwasanaethau ffrydio byd-eang.

4. Mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi gofyn i'r Panel Cyngori ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus ystyried y materion a godwyd a'r argymhellion sy'n deillio o Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr. Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth y DU i ddatblygu cynigion polisi a chynigion deddfwriaethol yn seiliedig ar yr argymhellion hyn, a sicrhau y caiff y gweinyddiaethau datganoledig eu cynnwys yn llawn wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

5. Rhaid i ddatblygiadau polisi ystyried y rôl unigryw sydd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wrth gomisiynu cynnwys ac adlewyrchu diwylliant Cymru a'r Gymraeg. Dylai rhanbarthau a chenhedloedd y DU fod yn rhan ganolog o'r trafodaethau ar ymateb i'r heriau a ddaw yn sgil yr oes ddigidol, a dylid rhoi sylw arbennig i rôl S4C wrth hyrwyddo'r Gymraeg.

6. Mae'r Pwyllgor wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i ofyn am y cyfle i drafod y materion hyn a'r heriau ehangach sy'n wynebu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru cyn gynted â phosibl.

7. Mae'r newidiadau arfaethedig i reoleiddio'r cyfryngau'n hanfodol, ond mae angen rheoleiddiwr cryf iddynt gael yr effaith a fwriedir. Mae'r Pwyllgor yn poeni nad oes gan Ofcom yng Nghymru y capasiti i wneud hyn ar hyn o bryd. Felly, rydym yn galw ar gryfhau Ofcom yng Nghymru, fel y gall pobl yng Nghymru gael y cyfryngau y mae arnynt eu hangen.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth y DU ddatblygu cynigion polisi a chynigion deddfwriaethol i weithredu argymhellion Ofcom yn Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, a sicrhau y caiff y gweinyddiaethau datganoledig eu cynnwys yn llawn yn y gwaith hwn.

3. Dylai cynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fod yn amlwg ac yn hygyrch

8. Mae'r fantais a roddir i'r cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar hyn o bryd, sef mwy o amlygrwydd ar y Canllaw Rhaglenni Electronig (EPG) ar setiau teledu, yn cael ei herydu wrth i arferion gwyllo newid. Mae cynulleidfaoedd yn gwyllo mwy o deledu ar alw ac yn fwyfwy tebygol o wyllo cynnwys drwy apiau neu ar-lein. Er enghraifft, mae'n dweud yn adroddiad Ofcom:

*"75% of online households in the UK now have a TV set that is connected to the internet via devices such as smart TVs, games consoles, streaming sticks and set-top boxes."*²

9. Nododd Hywel Wiliam, o Bwyllgor Cynghori Ofcom ar Gyfer Cymru, fod bron i 60 y cant o gartrefi yng Nghymru yn tanysgrifio i Netflix a bod dros hanner y setiau teledu yng Nghymru wedi'u cysylltu i wyllo cynnwys dros y rhyngwyd.³ Wrth drafod y duedd hon, dywedodd Ofcom:

*"There is an urgent need for new, modernised regulation to ensure that audiences can continue to enjoy the benefits of public service media in the digital age."*⁴

Mae Ofcom yn argymhell trefniadau newydd ynghylch argaeledd ac amlygrwydd ar alw. Byddai'r rhain yn cwmpasu:

*"TV platforms that are used by a significant number of people as their main way of navigating around and accessing a range of on-demand services from third-party providers."*⁵

Byddai'n ofynnol i'r llwyfannau wneud fel a ganlyn:

*"Each regulated platform provider must make the PSM content offer available in line with new statutory objectives, which would include an objective to ensure PSM content is made appropriately prominent".*⁶

10. Roedd pawb a gyfrannodd at y drafodaeth yn cytuno bod angen sicrhau y rhoddir amlygrwydd i ddarllledwyr gwasanaeth cyhoeddus pan fydd pobl yn dewis y cynnwys y maent am ei wyllo, ac roeddent yn cytuno ag argymhelliad Ofcom i ddiwygio'r rheoliadau ar gyfer llwyfannau cynnwys. Er enghraifft, dywedodd Phil Henfrey, ITV Cymru:

² **[Argymhellion i Lywodraeth y DU ar ddyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus \(smallscreenbigdebate.co.uk/cymru\)](https://smallscreenbigdebate.co.uk/cymru)**

³ Paragraff 218, trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Hydref 2021

⁴ **[Argymhellion i Lywodraeth y DU ar ddyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus \(smallscreenbigdebate.co.uk/cymru\)](https://smallscreenbigdebate.co.uk/cymru)**

⁵ **[Annex 1: Ensuring PSM content remains widely available and prominent \(smallscreenbigdebate.co.uk\)](https://smallscreenbigdebate.co.uk)**

⁶ **[Annex 1: Ensuring PSM content remains widely available and prominent \(smallscreenbigdebate.co.uk\)](https://smallscreenbigdebate.co.uk)**

*"As audiences move to these new platforms, it's really important that they're able to find content about Wales the country and not whales the marine mammal."*⁷

11. Dywedodd Owen Evans, S4C:

*"Beth ffeindion ni mas pan oedden ni ar yr EPG yn isel lawr oedd bod mynd lan tua 30 lle yn yr EPG yn codi faint o bobl oedd yn eich gwyllo chi, achos roeddech chi'n weledol. Nawr, yn yr un ffordd, pan fyddwch chi'n pigo lan remote control, mae Netflix, mae Amazon, does dim BBC, does dim ITV, does dim S4C. Rydych chi'n troi'r teledu ymlaen a rhoi'r smart tv ymlaen, ac mae rhestr o aps. Mae rhywun yn dewis ble mae'r aps yna'n mynd, ac os nad yw S4C, os nad yw'r BBC, os nad yw ITV yn y rhestr yna yn amlwg, mae pobl yn mynd i ddewis rhywbeth arall, ac felly mae hi'n hollol bwysig bod yr hawl gan y PSBs i gael eu aps nhw ar y dyfeisiadau yma, ond hefyd gyda'r un math o prominence ag sydd ar gael ar EPGs, neu bydd pobl jest yn camu heibio i ni."*⁸

12. Trafodwyd pa mor anodd yw sicrhau bod hyn yn digwydd mewn oes o fanteisio ar gyfryngau byd-eang. Wrth ymateb i gwestiwn am sut y gellir rheoleiddio er mwyn gwella amlygrwydd, cytunodd Hywel Wiliam o Bwyllgor Cyngori Cymru Ofcom ei bod yn broblem ryngwladol. Dywedodd:

*"Dyw e ddim yn rhywbeth gall jest y Deyrnas Unedig neu Gymru ei ddarparu. Mae'n rhaid i ni feddwl yn nhermau Ewropeaidd, ac efallai yn fyd-eang, yn wir, achos cyrff byd-eang yw cyrff fel Google ac Amazon ac yn y blaen, ac mae'n rhaid gallu cydweithio, dwi'n credu, â gwledydd ar draws y byd, yn wir, inni sicrhau'r math o amlygrwydd rwy'n credu eich bod chi'n sôn amdano fe."*⁹

Ein barn ni

⁷ Paragraff 102, trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Hydref 2021

⁸ Paragraff 112, trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Hydref 2021

⁹ Paragraff 226, trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Hydref 2021

Clywodd y Pwyllgor pa mor bwysig ydyw i barhau i sicrhau bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn amlwg i wylwyr pan fyddant yn dewis beth i'w wyltio neu ei lawrlwytho, a sut mae'r newid o wyltio teledu a ddarlledir i wasanaethau ar alw wedi effeithio'n negyddol ar hygyrchedd cynnwys y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

Bydd cynnal yr amlygrwydd hwn yn heriol pan ddarperir cynnwys ar alw gan wasanaethau ffrydio rhyngwladol sydd y tu allan i ddeddfwriaeth y DU ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae lle i ddysgu o ymdrechion gwledydd eraill i fynd i'r afael â'r broblem hon. Mae lle hefyd i drafod atebion gyda chorfforaethau byd-eang i hwyluso mynediad haws i gynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

Ar ben hynny, o gofio pwysigrwydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i Gymru, mae angen cefnogi, hefyd, y gyfundrefn reoleiddio sy'n cefnogi'r dirwedd ddarlledu hon. Nid ydym wedi ein darbwylllo bod gan Ofcom Cymru y capasiti i gyflawni ei gyfrifoldebau ar hyn o bryd. Mae ar Ofcom Cymru angen y capasiti i ddeall cynulleidfaoedd Cymru yn well a'r capasiti i gyflawni atebion rheoleiddio er mwyn sicrhau y caiff cynulleidfaoedd Cymru a defnyddwyr gwasanaethau Cymru y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth y DU ymateb yn gadarnhaol i argymhellion Ofcom y dylai fod yn ofynnol i lwyfannau ffrydio gynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, rhoi amlygrwydd priodol iddynt, a thrafod â'r darlledwyr hynny. Dylid sicrhau bod proses gorfodi a datrys anghydfodau effeithiol yn sail i'r gofynion hyn.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth y DU ystyried enghreifftiau rhyngwladol o fynd i'r afael â'r heriau a berir gan wasanaethau ffrydio byd-eang a'r ffaith bod pobl yn gwyltio mwy o gynnwys ar-lein, a sut y gwneir hynny mewn gwledydd sydd â hanes o fodolau darlledu gwasanaeth cyhoeddus tebyg i Gymru, ac mewn gwledydd sydd ag ieithoedd lleiafrifol.

Argymhelliad 4. Dylai gweithredoedd Ofcom yng Nghymru gael eu hadolygu. Os argymhellir hynny, o ganlyniad i'r adolygiad, mae'n rhaid i Lywodraeth y DU ddarparu adnoddau ychwanegol er mwyn cryfhau'r rheoleiddiwr yng Nghymru.

4. Cyllid a'r angen am ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus cryf yng Nghymru

13. Rhaid i'r ddadl ar ddyfodol darparwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru fynd i'r afael â'r ffaith na allant gystadlu â gwasanaethau ffrydio byd-eang o ran cyllid. Mae Cymru'n elwa ar

nifer o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o safon na fyddent yn bodoli pe baem yn dibynnu ar rymoedd y farchnad yn unig i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd Cymru.

14. Tynnwyd sylw at rôl darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i ddarparu gwybodaeth sy'n benodol i Gymru yn ystod y pandemig, pan welwyd gwahaniaethau rhwng ddulliau deddfwriaethol y gweinyddiaethau ar draws y DU. Mae'r cynnydd enfawr yn y ffigurau gwylio ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y pandemig wedi dangos bod cynulleidfaoedd yn dibynnu ar y darlledwyr hyn i ddarparu newyddion a gwybodaeth y gellir ymddiried ynddynt. Er enghraifft, wrth i drefniadau gwahanol weinyddiaethau'r DU ddod yn fwy amlwg, gwnaeth y BBC ymrwymiad clir i esbonio'r gwahaniaethau ar draws y DU ac i dynnu sylw'r gynulleidfa at y ffaith bod rhai polisïau a rheoliadau yn berthnasol i genedl benodol yn unig.¹⁰

15. Soniwyd am y pŵer ariannol sydd gan wasanaethau ffrydio byd-eang a'r ffaith na all darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gystadlu. Dywedodd Gareth Williams, TAC:

*"Os ydych chi'n edrych ar sefyllfa Netflix yn ymrwymo i wario £750 miliwn yn y Deyrnas Unedig eleni ar gynnwys newydd i Netflix, mae hwnna'n fwy na chyllideb cynnwys Channel 4 mewn blwyddyn o ryw £100 miliwn; mae e'n sylweddol yn fwy, wrth gwrs, na chyllideb cynnwys S4C... mae cystadlu yn erbyn y gwaith yna ar y tariffau, ar y prisiau sydd yn cael eu cynnig gan wasanaethau darlledu cyhoeddus, yn dod yn fwy ac yn fwy ac yn fwy anodd."*¹¹

16. Bydd cyllid y BBC ac S4C yn dod yn gyfan gwbl o ffi'r drwydded o ddechrau cyfnod setliad nesaf ffi'r drwydded yn 2022. Mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon eisoes wedi dechrau'r broses o drafod cost y drwydded deledu yn y dyfodol, ym mis Tachwedd 2020.

17. Yn adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Edrych ar ddatganoli darlledu¹², galwodd y Pwyllgor am i Gymru gael mwy o gynrychiolaeth yn nhrefnadaethau ffi'r drwydded, ac argymhellodd y dylid sefydlu comisiwn ariannu annibynnol gyda chynrychiolaeth benodol o Gymru.

¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig gan BBC Cymru ar gyfer yr ymchwiliad i'r achosion o COVID-19 a'r effaith ar newyddiaduraeth a'r cyfryngau lleol

¹¹ Paragraff 262, trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Hydref 2021

¹² <https://senedd.cymru/media/zilcozea/cr-ld14207-w.pdf>

18. Yn ddiweddar, gwelwyd enghraifft o'r ffaith bod angen llais cryfach i Gymru mewn trafodaethau i sicrhau setliad ariannu teg i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ac S4C yn benodol, pan werthwyd yr hawliau i ddarlledu gemau rygbi rhyngwladol yr hydref yn fyw. Yn yr achos hwn, rhagorwyd ar gynnig S4C, sy'n golygu na all gwylwyr yng Nghymru wyllo'r gemau hyn yn fyw mwyach.

19. Dywedodd Owen Evans, Prif Weithredwr S4C, fod y ffaith y bydd yn rhaid i bobl dalu i wyllo'r gemau rhyngwladol yn fyw yr hydref hwn yn "gam nôl". Dywedodd fod hyn yn "esiampol fach o beth sy'n debygol o ddigwydd yn y blynyddoedd i ddod". Esboniodd fod S4C yn draddodiadol wedi defnyddio digwyddiadau chwaraeon byw i "groes-hyrwyddo" eu cynnwys i'r rhai sydd â llai o gyswllt â'r Gymraeg, megis hysbysebu rhaglenni i blant a dysgwyr, a bod hyn yn rhywbeth y mae Amazon yn annhebygol o'i wneud. Dywedodd:

"...i'r dyfodol, rwy yn credu bod yna risg i'r iaith a risg i sianel fel S4C, ond hefyd yn fwyfwy i'r BBC ac ITV sydd yn cystadlu am yr hawliau yma, fod y bobl yma yn dod i le mae'r PSBs yn draddodiadol wedi bod yn gryf iawn a jest yn ein rhewi ni allan."¹³

Ein barn ni

Mae'r rhwymedigaeth ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gynnig arlwy eang o gynnwys, ac nid dim ond dewis y digwyddiadau sy'n debygol o ddenu'r gynulleidfa fwyaf, wrth wraidd yr ethos darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Heb gyllid digonol i ddarparu'r arlwy amrywiol hon, mae perygl y bydd cynulleidfaoedd yn colli'r profiadau diwylliannol yr ydym yn eu gwerthfawrogi fwyaf sy'n dod â phobl ynghyd.

Gwelwyd dibyniaeth gynyddol ar gynnwys newyddion gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y pandemig, sy'n dangos pa mor bwysig yw'r darllledwyr gwasanaeth cyhoeddus o ran cynnig darpariaeth ddiduedd ledled y DU. Mae'r gallu i ddarparu gwybodaeth gywir y gellir ymddiried ynddi i bob rhan o'r DU, ac yn benodol i Gymru, mewn perygl os caiff darllledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu gwthio allan o'r farchnad gan wasanaethau ffrydio byd-eang rhyngwladol.

Ar hyn o bryd, caiff Llywodraeth y DU wneud penderfyniadau am ffi'r drwydded heb gyfranogiad gan Lywodraeth Cymru neu Senedd Cymru. Mae'r Pwyllgor yn galw am roi mwy o gyfle i'r gweinyddiaethau datganoledig gyfrannu at y trafodaethau ynghylch setliad nesaf ffi'r

¹³ Paragraff 136, trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Hydref 2021

drwydded ar gyfer 2022-2027, ac i'r broses hon gael ei chynnal gan gomisiwn ariannu annibynnol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn galw am setliad ariannu sy'n galluogi'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gystadlu'n well â gwasanaethau ffrydio byd-eang sydd â llawer mwy o bŵer ariannol.

Argymhelliad 5. Mae'r trafodaethau ar setliad ariannu Cymru yn gam hanfodol er mwyn sicrhau y gall darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus barhau i wasanaethu cynulleidfaoedd Cymru drwy roi sylw i'n digwyddiadau diwylliannol sy'n dod â phobl ynghyd a darparu newyddion y gellir ymddiried ynddo. Mae'r Pwyllgor yn galw am sedd wrth y ford i gynrychiolydd Cymru wrth drafod setliad nesaf ffi'r drwydded rhwng 2022 a 2027. Hefyd, dylid cynnwys rôl y cynrychiolydd hwn fel safon ar gyfer cylch nesaf y trafodaethau.

5. Rôl darlledu gwasanaeth cyhoeddus wrth sbarduno twf yn y diwydiant creadigol

20. Un o argymhellion cyntaf adroddiad Ofcom yw y dylid moderneiddio'r amcanion ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus er mwyn cefnogi economi greadigol y DU. Mae'n argymhell y dylid cael set ddiwygiedig o amcanion ar gyfer y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus:

"Dylai deddfwriaeth newydd ddiogelu a chryfhau ei nodweddion pwysicaf: ystod eang o raglenni sy'n adlewyrchu pob rhan o'r DU a'r gallu i ymgysylltu â'r cynulleidfaoedd ehangaf posibl. Dylid cael amcan newydd hefyd i gefnogi economi greadigol y DU".¹⁴

21. Yn rhannol oherwydd y cwotâu ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gomisiynu cynnwys gan gwmnïau cynhyrchu annibynnol, mae Cymru wedi datblygu sector diwydiannau creadigol cryf sydd wedi tyfu'n fwy na rhannau eraill o'r DU yn ystod y degawd diwethaf. Dywedodd Rhuanedd Richards, BBC Cymru, wrth y Pwyllgor:

"...our creative sector in Wales is growing quicker than in pretty much any other part of the UK. Over the last 10 years, where the creative sector has

¹⁴ **Argymhellion i Lywodraeth y DU ar ddyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus** (smallscreenbigdebate.co.uk/cymru)

grown in the UK by around 31%, in Cardiff and the surrounding regions, the growth has been 54%.”¹⁵

22. Wrth sôn am bwysigrwydd y cwotâu i Gymru, dywedodd Elinor Williams, Ofcom Cymru:

“Maen nhw wedi cyflawni lot o ran sicrhau bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cydweithio gyda'r sector annibynnol a sicrhau bod y sector annibynnol yn un hyfyw a bod y sector yn cyfrannu yn helaeth at yr economi greadigol yng Nghymru ac yn y cenhedloedd.”¹⁶

23. Aeth ymlaen i ddweud bod angen deddfwriaeth i ddiweddarau'r model presennol i “sicrhau ein bod ni yn pontio'r ddarpariaeth sydd wedi gwneud cymaint ar gyfer y byd llinol traddodiadol a sicrhau ei fod e wedyn yn addas ar gyfer y byd digidol.”¹⁷

24. PACT yw'r grŵp sy'n cynrychioli cynhyrchwyr cynnwys annibynnol y DU. Soniodd PACT wrth y Pwyllgor am bwysigrwydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i'r economi greadigol yng Nghymru. Ysgrifennodd:

“The UK PSBs (BBC, C4, ITV and Channel 5) are central to the production and broadcasting ecology, and many production companies based in Wales are solely reliant on the PSBs for commissions. For example, 70% of 'out of London' primary commissioning revenue is from UK PSB network commissions.”¹⁸

25. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU wedi gwario £1,168 miliwn ar gomisiynu yn y DU yn 2020,¹⁹ gan nodi bod refeniw sector teledu'r DU wedi gostwng £450 miliwn o ganlyniad i'r pandemig. Aeth ymlaen i ddweud, er bod gwariant comisiynu wedi gostwng ar draws y sector, roedd y gyfran a wariwyd ar gomisiynau y tu allan i Lundain wedi cynyddu i 45 y cant a bod gwariant sylfaenol ar gomisiynau yng Nghymru wedi cynyddu o 8 y cant yn 2019 i 15 y cant yn 2020.

¹⁵ Paragraff 152, trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Hydref 2021

¹⁶ Paragraff 41, trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Hydref 2021

¹⁷ Paragraff 41, trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Hydref 2021

¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig gan PACT

¹⁹ Pact Census, Oliver&Ohlbaum, 2021

26. Tynnodd Ruth McElroy o Brifysgol De Cymru sylw at y ffaith bod cynrychiadau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn creu manteision ariannol hirdymor i gwmnïau cynhyrchu tra bod yn well gan wasanaethau ffrydio brynu'r hawliau i sioeau ac felly elwa arnynt am gyfnod amhenodol. Dywedodd:

*"...yn hanfodol bwysig i'r tirlun o greu cynnwys gan gwmnïau annibynnol ydy'r ffaith eu bod wedi gallu cadw yr eiddo deallusol y maen nhw'n ei greu. Mae'r modelau busnes mae Netflix ac Amazon ac yn y blaen yn gweithio arnynt yn golygu nad ydy cwmnïau yn medru cadw'r IP."*²⁰

27. Soniodd hefyd am bwysigrwydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wrth greu a chynnal swyddi. Dywedodd:

*"Mae dros 90 y cant o'r cynnwys sydd wedi cael ei gomisiynu yn y flwyddyn ddiwethaf gan gwmnïau bach yng Nghymru wedi dod o'r darlledwyr cyhoeddus. Beth mae hynny'n ei olygu, yn enwedig efo cyfresi sydd yn dychwelyd, ydy swyddi, a swyddi y tu hwnt i Gaerdydd hefyd. Felly, dwi'n meddwl ei bod hi'n bwysig...i feddwl am beth ydy rôl darlledwyr cyhoeddus o ran cwmnïau ond hefyd o ran swyddi."*²¹

Ein barn ni

Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gefnogi'r economi greadigol, yn enwedig cwmnïau cynhyrchu annibynnol yng Nghymru. Heb y rôl gomisiynu a chwaraeir gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gallai'r sector hwn gollu momentwm a chael trafferth cystadlu ar lwyfan rhyngwladol.

Mae'n siŵr y byddai'n hanfodol i agenda 'codi'r gwastad' Llywodraeth y DU y parheir i fuddsoddi yn y cyfleoedd hyn ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau.

Bydd sicrhau hyfywedd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn golygu bod Cymru'n parhau i elwa'n greadigol ac yn ariannol ar gymorth i'r diwydiannau creadigol y tu allan i Lundain. Mae'r rôl gomisiynu a chwaraeir gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi bod mor llwyddiannus o dan y model traddodiadol, llinol, a dylid ei diweddarau ar gyfer yr oes ddigidol.

²⁰ Paragraff 270, trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Hydref 2021

²¹ Paragraff 271, trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Hydref 2021

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth y DU gydnabod pa mor bwysig yw moderneiddio amcanion y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'u diweddarau i sicrhau eu bod yn cefnogi economi greadigol y DU, gan sbarduno manteision economaidd ar draws y cenedloedd a'r rhanbarthau.

6. Mae tueddiadau gwyllo yn cael mwy o effaith ar Gymru a'r Gymraeg

28. Wrth i wylwyr symud i ffwrdd o wyllo cynnwys yn y modd traddodiadol, llinol gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ceir mwy o gynnwys sydd wedi'i bersonoli a llai o brofiadau gwyllo cyffredinol. Clywodd y Pwyllgor fod llai o siawns y bydd gwylwyr yn gwyllo cynnwys a allai fod yn fwy amrywiol wrth drafod y DU a dangos profiadau pobl yn y DU.²² Mae Cymru eisoes yn dioddef yn sgil methiant y farchnad o ran creu cynnwys. Mae gwylwyr Cymru yn dibynnu ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i adlewyrchu eu diwylliant a'u hiaith ar lefel genedlaethol: hebddynt, mae cwmnïau masnachol nad ydynt yn ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn annhebygol o ddarparu ar gyfer iaith leiafrifol a'r hyn y gallent ei weld fel cynulleidfa gymharol fach. O'r safbwynt hwnna, mae gwylwyr Cymru yn dibynnu llawer mwy na gwylwyr yng ngweddill y DU ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i'w cynrychioli ar y sgrin.

29. Tynnodd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sylw at eu rôl wrth adlewyrchu bywyd, diwylliant ac iaith Cymru. Dywedodd Phil Henfrey, ITV Cymru:

"...viewers in Wales are really heavily reliant on public service content to get information programming about the country they live in... in today's digital age, public service content, like that created by ITV, is something that remains hugely important to viewers in Wales and, indeed, across the UK. Of course, the pandemic brought that into sharp relief. The fact is that we operate in a market that produces little or no content about Wales."²³

30. Wrth drafod methiant y farchnad i gynhyrchu cynnwys am Gymru, cytunodd y cyfranogwyr nad yw cwmnïau ffrydio byd-eang sy'n anelu at ddenu cynulleidfaeodd

²² Paragraff 259, trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Hydref 2021

²³ Paragraff 86, trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Hydref 2021

rhyngwladol yn debygol o gynhyrchu cynnwys o'r fath.²⁴ Roedd Phil Henfrey, ITV Cymru, yn dadlau mai ymyrryd, drwy weithredu argymhellion Ofcom, oedd yr unig ateb i'r 'tswnami' a wynebwr gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn sgil gwasanaethau ffrydio byd-eang. Dywedodd:

"...you could answer it the other way around and say, 'Well, if nothing is done, I think you can safely say that the global giants will be just fine.' Will that serve viewers in Wales? ... They will produce content that will be consumed by people in Wales, but will that be content that reflects the lives of people in Wales? Will that be information that is relevant to them in a Welsh context? I think that is less likely."²⁵

"At the heart of this is that what public service broadcasting does right now really matters to people in Wales, and Ofcom has come up with a new proposal for a new regulatory framework, which should enable viewers in Wales to continue to get content about Wales that matters in their lives.... it's really, really important that Wales's voice is heard within this, because we are constantly talking about global audiences and the globalisation of television, and there's a real danger that Wales's voice gets lost in this."²⁶

31. Gofynnwyd i Owen Evans, S4C, beth sydd ei angen i sicrhau bod gan S4C lais yn nhirwedd y dyfodol. Atebodd gan ddweud:

"Mae'r iaith Gymraeg yn bwysig. Er ein bod ni'n fach, dŷn ni'n rili bwysig i gyfundrefn Cymru. Roeddet ti'n dweud gynnau fach bod 'things are done to us'; wel, mae ein huchelgais ni lot yn fwy na 'things being done to us'. Ac felly, dŷn ni yn Llundain, dŷn ni yn gweithio efo partneriaid mwy i sicrhau bod llais S4C yn torri trwyddo yn hwn. Y peth pwysicaf yw bod y gwleidyddion yn gallu gweld bod yr iaith Gymraeg yn bwysig, ei bod hi'n werth cefnogi, a'i bod hi'n werth delio â hi o fewn y gyfundrefn newydd digidol yma."²⁷

²⁴ Paragraff 102, trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Hydref 2021

²⁵ Paragraff 128, trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Hydref 2021

²⁶ Paragraff 129, trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Hydref 2021

²⁷ Paragraff 176, trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Hydref 2021

32. Gofynnwyd i Elinor Williams, Ofcom Cymru, a oedd argymhellion Ofcom yn rhy eang i ddiogelu cynrychiadau yng Nghymru, y portread o Gymru a mynediad at wasanaethau newyddion lleol. Dywedodd:

*"Mae hwnna yn un o bwrpasau craidd darlledu gwasanaeth cyhoeddus, wrth gwrs, sef y gallu i ddinasyddion weld eu hunain a gweld eu bywydau yn cael eu hadlewyrchu ar y sgrin...Rŷn ni wedi gweld y system gwotâu yn darparu ar gyfer cynulleidfaoedd yn ystod y degawd diwethaf, a dwi'n credu yr hyn sydd angen sicrhau yw ei bod hi'n gweithredu ar gyfer y cyfnod nesaf yma. Does gan Netflix a Disney+ ddim diddordeb cynhyrchu deunydd am Gymru, nac yn sicr yn y Gymraeg... Dwi'n credu ei fod e'n rhywbeth lle mae'n rhaid edrych ar beth rŷn ni'n dda yn ei wneud, a sicrhau ein bod ni'n gwneud mwy ohono fe yn y dyfodol."*²⁸

33. O ran gwyllo cynnwys, dywedodd Phil Henfrey, ITV Cymru, fod y rhan fwyaf o'r cynnwys yn cael ei weld ar-lein erbyn hyn ac yn cael ei reoli gan 'borthgeidwaid' nad ydynt yn darparu cynnwys am Gymru ar hyn o bryd.²⁹ Dywedodd Owen Evans, S4C, hefyd ei fod yn anodd cael eich gweld ar lwyfannau ar-lein:

*"...un o'r pethau sy'n anodd iawn i feddwl amdano at y dyfodol yw sut mae pobl yn mynd i ddod at gynnwys Cymreig, ac yn enwedig yn yr iaith Gymraeg yn y dyfodol."*³⁰

34. Dywedodd Rhuanedd Richards, BBC Cymru, nad yw'r prif gwmnïau sy'n gyfrifol am reoli cynnwys yn debygol o roi amlygrwydd i gynnwys Cymraeg heb ryw fath o ymyrraeth. Dywedodd:

*"Ydych chi'n meddwl o ddifri y byddan nhw'n ystyried anghenion y Gymraeg yn hynny, neu anghenion darlledu cyhoeddus yng Nghymru? Na. A dyna pam mae angen y ddeddfwriaeth yma."*³¹

²⁸ Paragraffau 66 a 68, trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Hydref 2021

²⁹ Paragraff 87, trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Hydref 2021

³⁰ Paragraff 89, trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Hydref 2021

³¹ Paragraff 118, trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 13 Hydref 2021

Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor eisoes wedi clywed bod gwylwyr yng Nghymru yn fwy dibynnol ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus am eu newyddion a'u gwybodaeth na gwylwyr yng ngweddill y DU, ac atgoffodd y cyfranogwyr y Pwyllgor fod hyn wedi cynyddu yn ystod y pandemig. Mae gwylwyr yng Nghymru hefyd yn dibynnu ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i ddarparu cynnwys a sylwebaeth sy'n adlewyrchu diwylliant y wlad hon, yn enwedig yr iaith, am fod y farchnad yn annhebygol o ddarparu'r cynnwys hwn heb ymyrraeth.

Mae'n bwysig bod pobl yng Nghymru yn cael newyddion cywir am benderfyniadau a wneir am Gymru ac sy'n effeithio ar Gymru. Credwn fod angen rheoleiddio'n rhagweithiol wrth gyflawni hyn.

Mae rôl unigryw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o ran addysgu, hysbysu a diddanu gwylwyr yng Nghymru yn golygu bod angen ystyried effeithiau newidiadau ar lefel fyd-eang ar draws y cenhedloedd a'r rhanbarthau, nid ar lefel y DU yn unig. Wrth drafod atebion polisi ac atebion deddfwriaethol i heriau'r oes ddigidol, mae angen cynnwys y gweinyddiaethau datganoledig a sicrhau y rhoddir sylw i ddiogelu cynnwys yn y Gymraeg a'r modd y caiff Cymru ei chynrychioli.

Argymhelliad 7. Dylai'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Panel Cyngori ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus gynnwys cynrychiolwyr o'r gweinyddiaethau datganoledig yn eu trafodaethau ynghylch atebion polisi ac atebion deddfwriaethol i'r heriau sy'n wynebu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn yr oes ddigidol. Dylid rhoi sylw arbennig i'r angen am ymyrraeth i sicrhau bod rhaglennu yn yr iaith Gymraeg, a chynnwys sy'n adlewyrchu Cymru yn y ddwy iaith, yn cael eu diogelu.

Atodiad A: Rhestr o gyfranwyr

Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar [wefan](#) y Pwyllgor

Dyddiad	Enw a sefydliad
13 Hydref 2021	Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
	Caitriona Noonan, Prifysgol Caerdydd
	Ruth McElroy, Prifysgol De Cymru
	Elinor Williams, Ofcom Cymru
	Hywel Wiliam, Pwyllgor Cyngtori Cymru Ofcom
	Gareth Williams, TAC
	Owen Evans, S4C
	Phil Henfrey, ITV Cymru
	Rhuanedd Richards, BBC Cymru
	Cafwyd tystiolaeth ysgrifenedig gan PACT